**Adroddiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Byrddau Cymdeithasau**

Mae Byrddau Cymdeithasau Tai yn cyflwyno ffurflenni blynyddol sy'n adrodd ar amrywiaeth aelodau'r bwrdd.

Ers 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi casglu data ar ystod o nodweddion gwarchodedig aelodau'r bwrdd.

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio rhoi trosolwg o'r sefyllfa yn 2019 mewn perthynas â'r prif fyrddau, yr is-fyrddau a chadeiryddion y byrddau a'i chymharu â'r ystadegau ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Mae'r adroddiad yn defnyddio data amrywiaeth a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru ers 2014. Dylid nodi na chasglwyd yr holl ddata amrywiaeth ers 2014, felly mae rhai o'r tablau sydd yn yr adroddiad yn cynnwys data o 2018 a 2019 yn unig.

Mae'r holl ddata cymharu ar y boblogaeth a thenantiaid cymdeithasol yn deillio o Gyfrifiad 2011 (oni nodir yn wahanol).

Cydnabyddir, er mwyn i gymariaethau fod yn ystyrlon ar lefel leol, bod yn rhaid gwneud hyn gan ddefnyddio data lleol yn hytrach na data cenedlaethol.

**Rhy**

Nid yn unig y mae menywod yn parhau i gael eu tangynrychioli ar fyrddau cymdeithasau tai ond ymddengys bod tuedd ar i lawr yn nifer y menywod sy'n aelodau o fyrddau ac mewn swyddi cadeirydd.

Er bod cynrychiolaeth menywod ar y prif fyrddau wedi parhau i wella rhwng 2014 a 2017, rydym wedi gweld gostyngiad o 1 ganran yn y niferoedd bob blwyddyn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae'r darlun ar gyfer byrddau, gan gynnwys is-fyrddau, yn edrych hyd yn oed yn llai cadarnhaol gyda dim ond 39% o'r aelodau'n fenywod yn 2019 – gostyngiad o 2% ers y llynedd.

Mae canran cadeiryddion y prif fyrddau RSL sy'n fenywod wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y 4 blynedd diwethaf. Er y gwelwyd cynnydd o 1% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae canran 2019 o 34% o gadeiryddion benywaidd yn parhau ymhell y tu ôl i'r ffigur o 39% yn 2017 a 37% yn 2016 a hefyd ymhell y tu ôl i'r gyfran o 51% o fenywod ym mhoblogaeth Cymru a 54% ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol.

<u>Y prif fyrddau</u>

Yn 2019 roedd 42% o aelodau'r byrddau hyn yn fenywod. Mae hyn yn ostyngiad o 1% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan oedd 43% o aelodau'r byrddau'n fenywod, ac yn ostyngiad o 2% o gymharu â 2017 pan oedd y ganran yn 44% - yr uchaf ers i'r gwaith monitro ddechrau yn 2014.

Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod nifer yr aelodau sy'n ddynion hefyd wedi gostwng 1% (o 56% i 55%) yn 2019, a'r nifer a nododd Gwell gennyf beidio â dweud/Arall wedi cynyddu 1% i 3%.

Er bod y gostyngiad yn nifer yr aelodau benywaidd a gwrywaidd yn 2019 i'w briodoli i'r cynnydd yn yr opsiwn Gwell gennyf beidio â dweud/Arall, mae'n dal yn bwysig cydnabod nad yw menywod yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar fyrddau cymdeithasau tai, gyda tuedd bosibl ar i lawr ers 2017.

| **Rhyw %** | **2014** | **2015** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **Poblogaeth** | **Tenantiaid cymdeithasol** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Benyw** | 38 | 39 | 42 | 44 | 43 | 42 | 51 | 54 |
| **Gwryw** | 62 | 61 | 58 | 56 | 56 | 55 | 49 | 46 |
| **Gwell gennyf beidio â dweud / Arall** | | Heb nodi | Heb nodi | 0 | 1 | 3 | Heb nodi | Heb nodi |

<u>Byrddau gan gynnwys is-fyrddau</u>

Mae data ar gael ar gyfer byrddau gan gynnwys is-fyrddau ar gyfer 2018 a 2019.

Mae'r dangynrychiolaeth o blith menywod ar y byrddau'n fwy arwyddocaol pan ystyrir y prif fyrddau a'r is-fyrddau gyda'i gilydd.

Ar gyfer y grŵp hwn, dim ond 39% o aelodau'r byrddau oedd yn fenywod yn 2019 sy'n ostyngiad o 2% o'r flwyddyn flaenorol pan oedd 41% yn fenywod. Mae hyn yn cymharu â gostyngiad o 1 pwynt canran yn nifer yr aelodau gwrywaidd (o 58% yn 2018 i 57% yn 2019). Felly, roedd gostyngiad mwy yng nghyfran yr aelodau sy'n fenywod o'i gymharu ag aelodau gwrywaidd.

<u>Cadeiryddion</u>

Mae canran cadeiryddion y prif fyrddau RSL sy'n fenywod wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y 4 blynedd diwethaf. Er y gwelwyd cynnydd o 1% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae canran 2019 o 34% o gadeiryddion benywaidd yn dal i fod ymhell y tu ôl i'r ffigur o 39% yn 2017 a 37% yn 2016 a hefyd ymhell y tu ôl i'r gyfran o 51% o fenywod ym mhoblogaeth Cymru a 54% ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol.

| **Rhyw %** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** |
|---|---|---|---|---|
| **Benyw** | 37% | 39% | 33% | 34% |
| **Gwryw** | 63% | 61% | 67% | 66% |
| **Gwell gennyf beidio â dweud/Arall** | 0% | 0% | 0% | 0% |

**Oedran**

Mae'n amlwg bod diffyg cynrychiolaeth o grwpiau oedran iau ymhlith aelodau byrddau cymdeithasau tai.

Y prif fyrddau

Dim ond 1% o aelodau'r byrddau oedd o dan 30 oed, sy'n dangynrychiolaeth sylweddol o gymharu â phoblogaeth Cymru a thenantiaid cymdeithasol. Mae'n werth nodi bod canran aelodau'r byrddau sy'n 65 oed a throsodd wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y 4 blynedd diwethaf (ac yn is na'r boblogaeth gyffredinol) o blaid y grwpiau oedran 30-44 a 45-64 (gyda chynnydd bach yn y naill a chynnydd o 10% yn y llall).

| **Oedran** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **Poblogaeth (Categorïau'r cyfrifiad)** | **Tenantiaid cymdeithasol (Categorïau'r cyfrifiad)** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dan 30** | 2% | 2% | 1% | 1% | 16% o dan 34 | 21% o dan 34 |
| **30-44** | 16% | 16% | 17% | 19% | 27% 34-54 | 27% 34-54 |
| **45-64** | Heb nodi | 46% | 54% | 56% | 27% 50-64 | 24% 50-64 |
| **Dros 65** | Heb nodi | 39% | 27% | 22% | 29% | 28% |
| **Gwell gennyf beidio â dweud** | | | 1% | 2% | Amherthnasol | Amherthnasol |

Byrddau gan gynnwys is-fyrddau

Mae'r tueddiadau o fewn y grŵp hwn wedi dilyn yr un patrymau o ran newidiadau â'r hyn a welwyd yn yr amrywiaeth oedran ar y prif fyrddau, gyda thangynrychiolaeth sylweddol o blith y grŵp dan 30 oed, a gorgynrychiolaeth o'r grŵp oedran 45-64.

| **Oedran** | **2018** | **2019** |
|---|---|---|
| **Dan 30** | 1% | 1% |
| **30-44** | 15% | 17% |
| **45 -64** | 56% | 58% |
| **Dros 65** | 27% | 21% |
| **Gwell gennyf beidio â dweud** | 1% | 3% |

Cadeiryddion

Nid oedd unrhyw gadeiryddion o dan 30 oed yn 2019. Mae nifer y cadeiryddion 30-44 oed wedi gostwng o blaid y rhai 45-64 oed. Mae cyfran y cadeiryddion dros 65 oed wedi parhau i ostwng ers 2017 er nad yw'r gyfran hon wedi gostwng mor sylweddol â'r gyfran ar gyfer aelodau'r prif fyrddau.

| Oedran % | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | Poblogaeth (Categorïau'r cyfrifiad) | Tenantiaid cymdeithasol (Categorïau'r cyfrifiad) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dan 30** | 0% | 1% | 0% | 0% | 16% dan 34 | 21% dan 34 |
| **30-44** | 7% | 14% | 12% | 8% | 27% 34-54 | 27% 34-54 |
| **45-64** | 58% | 46% | 44% | 55% | 27% 50-64 | 24% 50-64 |
| **Dros 65** | 35% | 39% | 44% | 37% | 29% | 28% |
| **Gwell gennyf beidio â dweud** | 0 | 0 | 0 | 0 | Amherthnasol | Amherthnasol |

**Ethnigrwydd**

Y prif fyrddau

Mae diffyg cynrychiolaeth ar fyrddau o blith pobl BAME o'i gymharu â phoblogaeth Cymru a thenantiaid cymdeithasol. Mae aelodau bwrdd BAME yn cyfrif am 3% o holl aelodau'r prif fyrddau, o gymharu â phoblogaeth BAME yng Nghymru o 6% a chyfran y tenantiaid cymdeithasol BAME sef 4% (er bod yr olaf yn debygol o fod wedi newid).

Yn ddiddorol, cynyddodd nifer a chyfran yr aelodau bwrdd BAME yn 2016 cyn gostwng eto y flwyddyn wedyn ac aros ar yr un lefel tan 2019.

| Grwpiau ethnig | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | Poblogaeth** | Tenantiaid cymdeithasol*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwyn** | 98% | 97% | 95% | 97% | 95% | 95% | 94% | 96% |
| **BAME*** | 2% | 3% | 5% | 3% | 3% | 3% | 6% | 4% |
| **Gwell gennyf beidio â dweud/ Heb ddatgan** | Heb nodi | Heb nodi | Heb nodi | 0% | 2% | 2% | | |

Aelodau’r prif fyrddau yn ôl grŵp ethnig

*At ddibenion yr adroddiad hwn, mae BAME yn cyfeirio at bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac eithrio grwpiau gwyn
** Mae’r ystadegau ar y boblogaeth BAME yn seiliedig ar amcangyfrifon diweddaraf Llywodraeth Cymru
*** Yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011

Byrddau gan gynnwys is-fyrddau

Mae'r sefyllfa ar gyfer byrddau gan gynnwys is-fyrddau yn debyg ar y cyfan i'r sefyllfa ar gyfer aelodau'r prif fyrddau. Mae 3% o holl aelodau'r prif fyrddau yn aelodau

bwrdd BAME, o gymharu â phoblogaeth BAME Cymru o 6% a chyfran y tenantiaid cymdeithasol BAME sef 4% (er bod yr olaf yn debygol o fod wedi newid.

| **Grwpiau ethnig** | **2018** | **2019** | **Poblogaeth**** | **Tenantiaid cymdeithasol***** |
|---|---|---|---|---|
| **Gwyn** | 95% | 93% | 94% | 96% |
| **BAME*** | 3% | 3% | 6% | 4% |
| **Gwell gennyf beidio â dweud/Heb ddatgan** | 1% | 3% | | |

* At ddibenion yr adroddiad hwn, mae BAME yn cyfeirio at bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac eithrio grwpiau gwyn
** Mae'r ystadegau ar y boblogaeth BAME yn seiliedig ar [amcangyfrifon diweddaraf Llywodraeth Cymru]
*** Yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011

Cadeiryddion

Dylid nodi bod 100% o gadeiryddion byrddau cymdeithasau tai yn wyn yn 2019 sy'n golygu nad yw'r boblogaeth BAME yn cael ei chynrychioli'n ddigonol ymhlith cadeiryddion cymdeithasau tai.

| **Grwpiau ethnig** | **2018** | **2019** | **Poblogaeth**** | **Tenantiaid cymdeithasol** |
|---|---|---|---|---|
| **Gwyn** | 97% | 100% | 95.6% | 96% |
| **BAME** | 3% | 0% | 5.4% | 4% |
| **Gwell gennyf beidio â dweud/Heb ddatgan** | 0% | 0% | Amherthnasol | Amherthnasol |

* At ddibenion yr adroddiad hwn mae BAME yn cyfeirio at bobl dduon, Asiaidd ac lleiafrifoedd ethnig ac eithrio grwpiau gwyn
** Mae'r ystadegau ar y boblogaeth BAME yn debygol o fod wedi cynyddu ers Cyfrifiad 2011

**Anabledd**

Mae anabledd yn parhau i gael ei dangynrychioli ymhlith aelodau'r prif fyrddau gyda dim ond 11% o aelodau'n nodi eu bod yn anabl o gymharu â'r boblogaeth o 22% a'r gyfran llawer mwy o denantiaid cymdeithasol anabl o 33%. Mae cyfran yr aelodau bwrdd anabl wedi gostwng yn sylweddol ers 2016 ac mae deirgwaith yn is na chyfran y tenantiaid cymdeithasol anabl – mae hyn yn dangynrychiolaeth sylweddol. Mae'r tueddiadau yn niferoedd aelodau'r is-fyrddau yn debyg iawn.

Mae gynrychiolaeth ymhlith cadeiryddion hyd yn oed yn is gyda dim ond 6% o gadeiryddion yn nodi eu bod yn anabl.

Yn ddiddorol, dewisodd cyfran uchel o aelodau'r byrddau yr opsiwn *Gwell gennyf beidio â dweud* (7%) opsiwn. Gellid priodoli hyn nid yn unig i ddewis unigol ond hefyd i'r stigma cymdeithasol sy'n gysylltiedig â rhai namau. Ynghyd â chyfeiriadedd rhywiol, dyma'r unig gategori lle'r oedd yn well gan rai cadeiryddion (3%) beidio â nodi eu nodwedd.

Y prif fyrddau

| Anabledd | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | Poblogaeth | Tenantiaid cymdeithasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oes** | 18% | 19% | 17% | 11% | 22% | 33% |
| **Nac oes** | Heb nodi | Heb nodi | 80% | 81% | 78% | 67% |
| **Gwell gennyf beidio â dweud** | | | 3% | 7% | | |

Byrddau gan gynnwys is-fyrddau

| Anabledd | 2018 | 2019 | Poblogaeth | Tenantiaid cymdeithasol |
|---|---|---|---|---|
| **Oes** | 16% | 11% | 22% | 33% |
| **Nac oes** | 82% | 82% | 78% | 67% |
| **Gwell gennyf beidio â dweud** | 2% | 7% | | |

Cadeiryddion

| Anabledd | 2018 | 2019 | Poblogaeth | Tenantiaid cymdeithasol |
|---|---|---|---|---|
| **Oes** | 10% | 6% | 22% | 33% |
| **Nac oes** | 87% | 91% | 78% | 67% |
| **Gwell gennyf beidio â dweud** | 3% | 3% | | |

## Cyfeiriadedd rhywiol

Mae cyfeiriadedd rhywiol Hoyw/Deurywiol/Arall wedi'i gynrychioli'n dda ar y prif fyrddau, gydag ychydig o or-gynrychiolaeth yn y ddwy flynedd o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Mae nifer yr aelodau bwrdd sy'n dewis peidio â dweud yn uchel (8% yn 2019). Ceir sylwadau isod.

| Cyfeiriadedd rhywiol | 2018 | 2019 | Poblogaeth* | Tenantiaid cymdeithasol |
|---|---|---|---|---|
| **Hoyw/Deurywiol/Arall** | 4% | 5% | 3.2% | anhysbys |
| **Heterorywiol/Strêt** | 85% | 87% | 95.2% | anhysbys |
| **Gwell gennyf beidio â dweud** | 10% | 8% | 1.6% | anhysbys |

* Yn seiliedig ar ddata Llywodraeth Cymru

Byrddau gan gynnwys is-fyrddau

Mae'r tueddiadau amrywiaeth ar gyfer byrddau gan gynnwys is-fyrddau yn debyg ar y cyfan i'r gynrychiolaeth ar y prif fyrddau.

| Cyfeiriadedd rhywiol | 2018 | 2019 | Poblogaeth* | Tenantiaid cymdeithasol |
|---|---|---|---|---|
| **Hoyw/Deurywiol/Arall** | 4% | 4% | 3.2% | anhysbys |
| **Heterorywiol/Strêt** | 87% | 87% | 95.2% | anhysbys |
| **Gwell gennyf beidio â dweud** | 9% | 9% | 1.6% | anhysbys |

Cadeiryddion

Yn 2019, nododd 92% o'r cadeiryddion eu bod yn Strê/Heterorywiol, gyda 3% yn nodi eu bod yn Hoyw/Deurywiol/Arall – mae hyn yn gynrychioliadol o boblogaeth gyffredinol Cymru lle mae 3.2% y cant yn nodi cyfeiriadedd heblaw heterorywiol. Fel y soniwyd eisoes, ar wahân i anabledd dyma'r unig gategori arall lle'r oedd rhai cadeiryddion wedi dewis yr opsiwn *Gwell gennyf beidio â dweud*, gyda 5% yn dewis peidio ag nodi eu cyfeiriadedd.

Yn yr un modd ag anabledd, mae'n bosibl bod hyn oherwydd dewis personol yn ogystal ag oherwydd y stigma cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd warchodedig hon.

| Cyfeiriadedd rhywiol | 2018 | 2019 | Poblogaeth* | Tenantiaid cymdeithasol |
|---|---|---|---|---|
| **Hoyw/Deurywiol/Arall** | 3% | 3% | 3.2% | anhysbys |
| **Heterorywiol/Strêt** | 97% | 92% | 95.2% | anhysbys |
| **Gwell gennyf beidio â dweud** | 0% | 5% | 1.6% | anhysbys |

* Yn seiliedig ar ddata Llywodraeth Cymru

**Canfyddiadau a heriau allweddol**

Dengys y ffurflenni amrywiaeth ar gyfer aelodau'r bwrdd nad yw rhai grwpiau'n cael eu cynrychioli'n ddigonol ar fyrddau cymdeithasau tai. Mae'r tangynrychiolaeth fwyaf arwyddocaol ymhlith y grwpiau canlynol:

- Aelodau bwrdd sy'n fenywod
- Aelodau bwrdd dan 44 oed

- Aelodau bwrdd o gymunedau duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (ac eithrio gwyn)
- Aelodau bwrdd anabl

Dylai Byrddau ystyried y camau gweithredu canlynol i helpu i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd.

1. Adolygu a chyhoeddi eu data amrywiaeth yn flynyddol, gan gynnwys cymhariaeth â data poblogaeth leol a phoblogaeth tenantiaid a'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â diffyg cynrychiolaeth

2. Cymryd camau i gynyddu amrywiaeth byrddau yn y grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli fwyaf. Gallai hyn gynnwys:
    i. Gosod targedau
    ii. Cymryd camau i gynyddu'r gronfa o ymgeiswyr amrywiol a gyfwelir ar gyfer swyddi bwrdd
    iii. Hyfforddi holl aelodau'r bwrdd, uwch arweinwyr a phaneli recriwtio mewn rhagfarn ddiarwybod
    iv Datblygu mentrau gweithredu cadarnhaol i gynyddu'r llif o aelodau amrywiol.

3. Gallu rhoi sicrwydd eu bod yn monitro amrywiaeth aelodau'r bwrdd ac yn cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu a fabwysiadwyd ganddynt mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth.

4. Ystyried mabwysiadu neu ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i wella cydraddoldeb ac amrywiaeth gan gynnwys, er enghraifft, nod ansawdd QED Tai Pawb.

Dylai'r Rheoleiddiwr ystyried y camau canlynol

1. Cynnwys cyfeiriad penodol at gydraddoldeb ac amrywiaeth fel rhan o'r adolygiad arfaethedig o'r fframwaith rheoleiddio.

*Lluniwyd yr adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Tai Pawb, Chwefror 2020*
*Mae'r holl ystadegau ar gyfer byrddau yn seiliedig ar ffigurau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.*